# Gobaith i'r Byd

Edrychwch ar y byd a darllenwch y newyddion a'r wybodaeth arall.

Oes yna unrhyw wledydd neu sefyllfaoedd sy'n dal eich sylw?

Nodwch eich gobaith / gweddi i'r bobl yn y sefyllfa yna.

Dros y byd i gyd y mae Cristnogion yn gweddïo dros eu gwledydd gyda'r weddi a ddysgodd Iesu i ni.

Mae 'na gopi o'r weddi yma i chi cael ei gweddïo os dymunwch chi.

HOPE SPACES

# Fy Nghoeden Deuluol

Pwy yn eich teulu sydd angen gobaith? Pwy sy'n ei chael hi'n anodd gydag iechyd gwael, heriau ariannol, methiant perthynas neu rywbeth arall? Nodwch enwau aelodau'ch teulu ar label bag a'i chlymu i'r Goeden Deuluol. Gofynnwch i Dduw dod â'i heddwch i'r sefyllfaoedd anodd maent yn ei wynebu.

Os ydi'n help gallwch weddïo'r weddi yma o'r Beibl drostynt:

*'A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrthy ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith.'*

**Rhufeiniad pennod 15 adnod 13.**

HOPE SPACES

# Fy Nghymuned

Ym mhle ‘dych chi’n byw? Beth yw eich gobeithion chi am eich cymuned? Defnyddiwch y deunyddiau sydd ar gael i dynnu llun neu air ar eich stryd, gan grynhoi eich gobaith i’r ardal.

Addawodd Dduw unwaith i gymuned Israel.

*‘Oherwydd myfi sy’n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer. bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol.’*

**Jeremeia pennod 29 adnod 11**

Gofynnwch iddo wneud yr un peth i’ch cymuned chi.

# Tywodydd Gobaith

Beth sy'n tynnu'r gobaith allan o'ch bywyd ar hyn o bryd?

Pa sefyllfaoedd, problemau yn y byd, geiriau neu berthnasau anodd sy'n pwyso arnoch?

Meddyliwch amdanyn nhw wrth i chi adeiladu mynydd yn y tywod. Rhannwch hyn gyda Duw yn ddistaw, gan nodi yn y tywod neu gan ddweud yn uchel, pam maent yn teimlo fel baich a gofynnwch am ei gymorth a'i dangnefedd.
Ar ôl i chi orffen dymchwelwch eich mynydd.

# Wal Gobaith

Mae gan bawb obeithion a breuddwydion, pethau hoffem ei weld yn digwydd, a phethau rydyn ni'n eu hangen. Ysgrifennwch neu luniwch weddi neu syniad am yr hyn yr ydych yn gobeithio am ar y garden gweddi yma. Rhwygwch y garden yn hanner. Ewch ag un hanner adref a gadewch eich gweddi ar yr hanner arall wrth y Wal Gobaith. Bydd aelodau o'r tîm Gofodau gweddi yn ymuno â chi yn gweddïo y bydd Duw yn ymateb i'ch gweddi. Gallwch weddïo dros eich gobeithion chi, gobeithion dros y rhai yr ydych yn eu caru neu obeithio dros y byd.